



Adroddiad Materion yn Codi
ar gyfer Cyngor Cymuned Llanddyfnan
Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31
Mawrth 2020

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Llanddyfnanat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

Materion a godwyd

- Materion bach
-

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi gan fod mân gamsyniadau ar y ffurflen flynyddol yr ydym yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt er mwyn iddynt beidio â digwydd eto mewn blynyddoedd i ddod.

Materion bach

Beth yw'r mater?

Mae'r mater(ion) isod wedi eu codi gan bod y ffigurau cymharu wedi cael eu newid:

Nid yw'r ffigurau cymharol a ddatgelir yn Adran 1 y Ffurflen Flynyddol yn cytuno â'r Ffurflen Flynyddol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Cafodd y ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 eu hailddatgan. Rydym wedi adolygu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud ac rydym yn fodlon eu bod yn gywir.

Mae'r cyngor wedi cynnwys rhai o'r costau staff ym mlwch 6, taliadau eraill. Felly mae'r taliadau eraill wedi eu datgan yn rhy uchel a'r costau cyflog wedi eu hadrodd yn rhy isel.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nodyn yw hwn i dynnu sylw'r cyngor at y mân gamsyniadau hyn.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor wneud yn siŵr, yn y blynyddoedd i ddod, nad yw'r mân gamsyniadau neu esgeulustod uchod wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifo.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cyngorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLL

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad: 16 Rhagfyr 2020
